THEATR Y GRAND ABERTAWE

GRAND

SWANSEA GRAND THEATRE




# STORI WELEDOL

## Dyma Theatr y Grand

## CROESO!

Bydd y stori hon yn eich helpu i baratoi ar gyfer eich ymweliad

Wrth i chi gerdded i lawr Singleton Street, byddwch yn gweld ein hadeilad mawr, ger y maes parcio




Byddwch yn cerdded drwy'r drws blaen i mewn i'r cyntedd



## Mynedfa'r Swyddfa Docynnau





## Prif gyntedd



## Mae ein Swyddfa Docynnau ar y dde





Mae ein Swyddfa Docynnau ar y dde Bydd staff y swyddfa docynnau'n rhoi tocynnau i chi ar gyfer y sioe Gallant ateb unrhyw gwestiynau sydd gennych am y theatr



Dyma’r lifft a fydd yn mynd â chi i lefelau amrywiol yn y theatr




Os ydych am fynd i'r toiled, mae'r rhain i'r chwith o'r swyddfa docynnau ynghyd â thoiled hygyrch.



Dyma’n theatr Gallwch chi a phobl eraill sydd â thocynnau i weld y sioe eistedd yn y seddi coch. Bydd eich tocyn yn dweud wrthych ym mha sedd y gallwch eistedd ynddi, ond gallwch ofyn i un o'n tywyswyr os oes angen cymorth arnoch.





Os ydych yn dod i berfformiad arferol, cyn i'r sioe ddechrau bydd y goleuadau mawr yn diffodd yn araf iawn a bydd yn tywyllu.

Efallai bydd rhai pobl yn parhau i wneud ychydig o sŵn, ond does dim angen i chi boeni am hyn.

Yna bydd y perfformwyr yn dod ar y llwyfan a bydd y sioe'n dechrau.

Os oes angen sedd plentyn arnoch i weld y sioe, gallwch gasglu un o wal gefn yr awditoriwm.

RP
RELAXED
PERFORMANCE

Os ydych chi'n dod i berfformiad hamddenol, bydd y prif oleuadau ymlaen drwy gydol y sioe a gallwch wneud sŵn a symud o gwmpas.




Os oes angen saib arnoch neu os ydych am fynd i rywle tawel, mae ystafell gyfarfod ar gael i chi ei defnyddio ar unrhyw adeg ym Mar y Cylch


Efallai y bydd saib yng nghanol y sioe

Yr egwyl yw hon.

Yn ystod yr egwyl, gallwch adael eich sedd i brynu bwyd a  diod neu fynd i'r toiled.  Bydd cloch yn canu i nodi diwedd yr egwyl.
Mae hyn yn golygu ei fod yn amser i chi  ddychwelyd i'ch sedd i wylio gweddill y sioe.

# Ar y diwedd bydd pawb yn curo dwylo.

Mae hyn yn rhoi gwybod i'r actorion fod pawb wedi mwynhau gwylio'r sioe.



## Gobeithio y byddwch yn mwynhau eich ymweliad!

Os oes gennych unrhyw gwestiynau cyn i chi ymweld, gallwch e-bostio swansea.grandfrontofhouse@swansea.gov.uk NEU ffonio 01792 475715

Cyngor Abertawe
Swansea Council